Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-24-17 Papur 8/ Paper 8

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

11 Gorffennaf 2017

Annwyl John

**Rhaglennu deddfwriaeth sydd ar y gweill**

Fel y gwyddoch, bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur yn ddiweddar yn nodi'r ystod o ddeddfwriaeth y bwriedir eu cyflwyno o fewn y deuddeg mis nesaf.

Roedd Rheolwyr Busnes o'r farn y byddai'n briodol i wneud penderfyniadau ‘mewn egwyddor’ o ran pa bwyllgorau y bydd Mesurau y bwriedir eu cyflwyno o fewn y deuddeg mis nesaf yn cael eu cyfeirio atynt, er mwyn helpu pwyllgorau gyda'u gwaith cynllunio.

Yn seiliedig ar mater pwnc Mesurau unigol, ymddengys y byddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig ganlynol yn fwyaf addas i gylch-gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau:

- Ombwdmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Mesur Pwyllgor)[1];
- Diwygio Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig;
- Ffioedd a Godir ar Denantiaid yn y Sector Rhentu Preifat;
- Llywodraeth Leol.

---

[1] Er bod Rheolau Sefydlog yn awgrymu dull gwahanol ar gyfer Mesurau Pwyllgor, mae'r Rheolwyr Busnes yn tueddi i gytuno â chynnig y Pwyllgor Cyllid sef, o ystyried mater pwnc y Mesur hwn a'r amgylchiadau o ran ei ddatblygiad, dylai'r Mesur gael ei gyfeirio at bwyllgor pwnc yng Nghyfnod 1 ac yn ôl i'r un pwyllgor yng Nghyfnod 2.

Fodd bynnag, mae'r Rheolwyr Busnes yn ymwybodol y byddai hyn yn golygu swm sylweddol o ddeddfwriaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ei ystyried, yn ogystal â gwaith craffu Cyfnod 2 y Pwyllgor ar Fesur Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru), gwaith craffu ar y gyllideb ac ymchwiliadau polisi.

Mater arall yw ei bod hi'n debygol y bydd Mesur Ombwdmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Mesur ar Ddiwygio Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cael eu cyflwyno tua'r un pryd yn ystod tymor yr hydref. Yn yr un modd, mae'n debygol y bydd y Mesur ar Ffioedd a Godir ar Denantiaid yn y Sector Rhentu Preifat a Mesur ar Lywodraeth Leol yn debygol o gael eu cyflwyno tua'r un cyfnod yn y gwanwyn/haf.

Felly, cyn dod i farn derfynol o ran a ddylid cyfeirio'r holl Fesurau hyn at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, byddai'r Rheolwyr Busnes yn ddiolchgar am eich barn ar y canlynol:

- a ydych chi o'r farn y byddai gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau gapasiti i reoli'r cyfaint hwn o ddeddfwriaeth;
- p'un a yw'r ddau achos o ddau Fesur er mwyn i'ch pwyllgor graffu arnynt a gyflwynir yn yr un cyfnod yn debygol o beri heriau penodol.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi eich barn ar y materion hyn cyn diwedd y tymor os yn bosib fel gall Rheolwyr Busnes wneud penderfyniadau ‘mewn egwyddor’ o ran pa bwyllgorau y bydd Mesurau y bwriedir eu cyflwyno o fewn y deuddeg mis nesaf yn cael eu cyfeirio atynt.

Yn gywir

Elin Jones

**Elin Jones AC**
Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes